# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 3

DARPARIAETHAU SY'N GYMWYS I BOB CONTRACT MEDDIANNAETH

## PENNOD 8

DELIO

*Contractau isfeddiannaeth*

### 66 Gwahardd deiliad y contract ar ôl cefnu ar gontractau

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) os yw deiliad contract ("D") o dan gontract meddiannaeth ("y prif gontract") yn ymrwymo i gontract isfeddiannaeth yn unol â'r prif gontract, a

(b) bod yr isddeiliad ("I") yn credu nad yw D mwyach yn ystyried ei fod yn barti i'r prif gontract a'r contract isfeddiannaeth.

(2) Caiff I weithredu i ddod â'r prif gontract i ben yn unol â'r adran hon.

(3) Rhaid i I roi hysbysiad i D—

(a) yn datgan bod I yn credu nad yw D mwyach yn ystyried ei fod yn barti i'r prif gontract a'r contract isfeddiannaeth,

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i D hysbysu I mewn ysgrifen cyn diwedd y cyfnod rhybuddio os yw'n ystyried ei fod yn barti i un o'r contractau hynny, neu i'r ddau ohonynt, ac

(c) yn hysbysu D y caniateir i'r prif gontract gael ei derfynu ar ôl y cyfnod rhybuddio ac y caniateir i'w hawliau a'i rwymedigaethau o dan y contract isfeddiannaeth gael eu trosglwyddo i landlord D.

(4) Rhaid i I roi copi o'r hysbysiad i landlord D.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 66 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(5) Yn ystod y cyfnod rhybuddio, rhaid i I wneud y cyfryw ymholiadau sy'n angenrheidiol i'w fodloni ei hun nad yw D mwyach yn ystyried ei fod yn barti i'r prif gontract a'r contract isfeddiannaeth.

(6) Ar ddiwedd y cyfnod rhybuddio caiff I, os yw wedi ei fodloni fel y disgrifir yn is-adran (5), wneud cais i'r llys am orchymyn—

(a) sy'n dod â'r prif gontract i ben, a

(b) bod hawliau a rhwymedigaethau D fel landlord o dan y contract isfeddiannaeth i'w trosglwyddo i landlord D yn unol ag adrannau 62 a 63.

(7) Ni chaiff y llys wrando ar gais I o dan is-adran (6) os yw I wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad yn is-adran (4); ond os yw'n ystyried bod hynny'n rhesymol caiff y llys hepgor y gofyniad hwnnw.

(8) Mae gan landlord D hawl i fod yn barti i achos ar gais a wneir gan I o dan is-adran (6).

(9) Os yw'r llys yn fodlon nad yw D yn ystyried ei fod yn barti i'r prif gontract a'r contract isfeddiannaeth, caiff wneud y gorchymyn y gwnaed cais amdano o dan is-adran (6); ac os yw'n gwneud hynny rhaid iddo bennu'r dyddiad y daw'r prif gontract i ben.

(10) Ond ni chaiff y llys wneud gorchymyn o dan is-adran (9)—

(a) os yw landlord D yn barti i'r achos,

(b) os yw landlord D yn haeru y byddai'r llys wedi gwneud gorchymyn adennill meddiant yn erbyn I, pe byddai D wedi gwneud cais am orchymyn o'r fath mewn hawliad meddiant a wnaed gan D yn erbyn I, ac

(c) os yw'r llys yn fodlon y byddai wedi gwneud y gorchymyn adennill meddiant yn erbyn I yn yr amgylchiadau hynny.

(11) Y cyfnod rhybuddio yw'r cyfnod o bedair wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir hysbysiad o dan is-adran (3) i D.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 66 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 66 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 66 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 15 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
– s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
– s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
– s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5